Rhaglen Gyflawn

# CABINET

## YN EISTEDD FEL YMDDIRIEDOLWYR YMDDIRIEDOLAETH ELUSEN AMGUEDDFA LLOYD GEORGE

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 16eg Gorffennaf, 2024 |
| **AMSER** | 3.00 y.h. (Yn dilyn ymlaen o gyfarfod Y Cabinet) |
| **LLEOLIAD** | Hybrid - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH and Zoom |
| **PWYNT CYSWLLT** | Rhodri Jones<br><br>01286 679556 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig Siencyn | Arweinydd y Cyngor |
| Nia Wyn Jeffreys | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Beca Brown | Aelod Cabinet Addysg |
| Berwyn Parry Jones | Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Elin Walker Jones | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Paul John Rowlinson | Aelod Cabinet Cyllid |
| Menna Trenholme | Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 14 MEDI 2021 | | | 5 - 6 |
| 5 | CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn dilyn y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei bod yn debygol y datglir gwybodaeth eithriedig o dan Baragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal yr wybodaeth hynny) a Paragraff 16 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â'r sawl y byddai modd cynnal hawl o fraint cyfreithiol proffesiynol mewn achos cyfreithiol.<br><br>Mae'r adroddiad ynglŷn a sefyllfa ac opsiynau ar gyfer rheolaeth elusen y mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr ohono. Felly, mae'r swyddogaeth yma ar wahân oddi wrth sefyllfa y Cyngor fel awdurdod cyhoeddus statudol ac yn ddarostyngedig i ofynion a chyfrifoldebau penodol rheolaeth elusen. Mae budd cyhoeddus mewn cael gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithredu mewn swyddogaeth o'r fath. Fodd bynnag mae hyn yn cael ei gyfarch drwy gyfraith elusennau, Mae'r adroddiad yma ynglŷn a thrafodion busnes ac opsiynau y dylai'r ymddiriedolwyr gael cyfle priodol i'w trafod a chloriannu mewn modd rhydd ac agored cyn dod i gasgliad gorau er budd yr elusen. Byddai cynnal y drafodaeth yn gyhoeddus yn tanseilio eu gallu i gyflawni | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | hyn. Y Cabinet yn eistedd fel ymddiriedolwyr yw’r unig fforwm priodol ar gyfer gweithredu hyn. Felly mae’r budd cyhoeddus o blaid eithrio. | | | |
| 6 | YMDDIRIEDOLAETH ELUSEN AMGUEDDFA LLOYD GEORGE | | | |

**Y CABINET YN EISTEDD FEL YMDDIRIEDOLWYR YMDDIRIEDOLAETH ELUSEN AMGUEDDFA LLOYD GEORGE DYDD MAWRTH, 14 MEDI 2021**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Nia Jeffreys, Gareth Griffith, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Roland Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant, Economi a Chymuned) a Nêst Thomas (Rheolwr Amgueddfeydd a 'r Celfyddydau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. CAU ALLAN Y WASG AR CYHOEDD**

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal yr wybodaeth hynny) a Paragraff 16 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â'r sawl y byddai modd cynnal hawl o fraint cyfreithiol proffesiynol mewn achos cyfreithiol.

Mae'r adroddiad ynglŷn a sefyllfa ac opsiynau ar gyfer rheolaeth elusen y mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr ohono. Felly, mae'r swyddogaeth yma ar wahân oddi wrth sefyllfa y Cyngor fel awdurdod cyhoeddus statudol ac yn ddarostyngedig i ofynion a chyfrifoldebau penodol rheolaeth elusen. Mae budd cyhoeddus mewn cael gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithredu mewn swyddogaeth o'r fath. Fodd bynnag mae hyn yn cael ei gyfarch drwy gyfraith elusennau, Mae'r

adroddiad yma ynglŷn a thrafodion busnes ac opsiynau y dylai’r ymddiriedolwyr gael cyfle priodol i’w trafod a chloriannu mewn modd rhydd ac agored cyn dod i gasgliad gorau er budd yr elusen. Byddai cynnal y drafodaeth yn gyhoeddus yn tanseilio eu gallu i gyflawni hyn. Y Cabinet yn eistedd fel ymddiriedolwyr yw’r unig fforwm priodol ar gyfer gweithredu hyn. Felly mae’r budd cyhoeddus o blaid eithrio.

**5. CYNLLUN BUSNES I GEFNOGI’R OPSIWN O CYNGOR GWYNEDD YN PARHAU I REDEG AMGUEDDFA LLOYD GEORGE**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNIAD**

Cefnogwyd y cynnig i wneud gwaith pellach i finiogi'r diffyg ariannol tebygol ac i wneud cais i Gyngor Gwynedd i asesu'r risgiau ynghlwm a’r cynllun busnes ac yn sgil hynny eu gallu i ymrwymo i gyfraniadau ariannol pellach i'r dyfodol.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad,

Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11am

**CADEIRYDD**